

Adroddiad ar ddirprwyaeth Israel a'r Lan Orllewinol

Cyflwyniad

Dyma adroddiad byr yn ymwneud â dirprwyaeth drawsbleidiol o Aelodau'r Cynulliad i Israel a'r Lan Orllewinol rhwng 24 a 28 Chwefror 2019.

Noddwyd y ddirprwyaeth gan Sefydliad Evan Roberts, elusen Gymreig sy'n ceisio hyrwyddo, diogelu ac addysgu pobl am dreftadaeth Gristnogol Cymru. Mae awdur yr adroddiad hwn yn un o ymddiriedolwyr y Sefydliad yn ogystal â Russell George AC, a gymerodd ran hefyd yn y ddirprwyaeth.

Diben y ddirprwyaeth oedd rhoi cyfle i Aelodau'r Cynulliad gymryd rhan mewn seremoni i nodi treftadaeth Gristnogol a milwrol Cymru yn y Tir Sanctaidd, ac i gyfrannu at raglen canfod ffeithiau i ddysgu mwy am Israel a'r Lan Orllewinol, gan gynnwys y rhagolygon ar gyfer heddwch, datblygiad yr economi, ac iaith, diwylliant a hanes y Tir Sanctaidd a'i pobl.

Roedd y rhaglen yn cynnwys nifer o ymweliadau a chyfarfodydd, a cheir crynodeb o'r rhain isod.

Treftadaeth Cymru

Cyflwynodd y ddirprwyaeth blac yn Hen Ddinas Jerwsalem i goffáu treftadaeth Gristnogol a milwrol Cymru yn y Tir Sanctaidd.

Cynhaliwyd y seremoni mewn gardd fechan y tu ôl i Eglwys Crist, Eglwys Anglicanaidd y tu mewn i Giât Jaffa enwog Jerwsalem, lle gorymdeithiodd milwyr Cymru â'r Cadfridog Allenby ar ôl i'r Otomaniaid ildio'r ddinas yn ystod ymgyrch yr Aifft a Phalesteina ar adeg y Rhyfel Byd Cyntaf.

Cymerodd holl aelodau'r ddirprwyaeth ran yn y seremoni, fel y gwnaeth Rheithor Eglwys Crist, y Parchedig David Pileggi.

Roedd y seremoni yn cynnwys darlenniadau gan Aelodau'r Cynulliad o fywyd Dewi Sant, darnau o gofiannau Capten y Ffiwsilwyr Brenhinol Gymreig John More, a Hanes yr 53fed Adran (Gymreig).

Dywedir bod Dewi Sant wedi ymweld â Jerwsalem yn y 6ed ganrif lle cafodd ei benodi yn Archesgob gan y Patriarch lleol a chafodd roddion i fynd yn ôl i Gymru. Roedd y rhoddion hyn yn cynnwys allor gludadwy gyda charreg ynddi a elwir yn llechen Jerwsalem. Mae'r llechen bellach yn Eglwys Gadeiriol Tyddewi yn Sir Benfro, lle cychwynnodd y plac ar ei daith o Gymru i Jerwsalem.

Cyfrannodd Brigâd 160 y Milwyr Traed, y Cymry Brenhinol, a Chymdeithas Lluoedd wrth Gefn a Chadetiaid Cymru at gost y plac.

Cafodd neges arbennig gan y Brigadydd Alan Richmond, Pennaeth y Fyddin yng Nghymru, ei rhannu â'r rhai a ddaeth i'r digwyddiad, a oedd yn dweud:

“Rwy'n falch iawn bod treftadaeth filwrol pobl Cymru yn y Tir Sanctaidd yn cael ei chydabod heddiw. Roedd fy mrigâd yn rhan o'r 53fed Adran (Gymreig) ac ar ôl dwy flynedd a hanner o ymladd yn y Dardanelles, yr Aifft a Phalesteina, a daethom i Jerwsalem ar 9 Rhagfyr 1917. Ddeuddydd yn ddiweddarach, ar y 11 o Ragfyr cyrhaeddodd y Cadfridog Allenby ar droed i ddatgan rhyddhad Hen Ddinas Jerwsalem o'r Ymerodraeth Otomanaidd yn ffurfiol. Ni fyddai ei lwyddiant wedi bod yn bosibl heb aberth anhunanol cymaint o filwyr o Gymru yn y 53fed

Adran (Gymreig) a hefyd yr 74fed Adran (Yeomanry). Rydym yn eu cofio i gyd gyda balchder a gostyngeiddrwydd mawr. Cymru am Byth."

Mae cyfnewid cerrig a darnau o'n tir yn symbol o gyfeillgarwch a choffâd rhwng pobl Cymru a'r Tir Sanctaidd a gobeithir y bydd y plac yn ysbrydoli pobl sy'n ymweld â Jerwsalem i ddysgu mwy am Gymru a'n treftadaeth Gristnogol a milwrol.

Mae'r plac wedi ei wneud o lechen Gymreig a dyma'r unig destun Cymraeg mewn arddangosfa gyhoeddus sydd wedi'i leoli yn Hen Ddinas Jerwsalem. Roedd yn arbennig o deimladwy y cafodd ei gyflwyno yn ystod wythnos Dydd Gŵyl Dewi.

Mae lle i goffáu ymhellach gysylltiadau treftadaeth Gristnogol a milwrol mewn rhannau eraill o'r Dwyrain Canol, a dylid eu harchwilio a datblygu rhaglen.

Safleoedd Cysegredig:

Ymwelodd y ddirprwyaeth â Wal y Gorllewin, Eglwys y Beddrod Sanctaidd a Mynydd yr Olewydd yn Jerwsalem, a Thiberiws a Chapernaum ar lannau Galilea. Mae degau ar filoedd o ymwelwyr a phererinion o bob cwr o'r byd yn cael eu denu i'r golygfeydd hyn bob blwyddyn. Mae llawer ohonynt yn dod i ddysgu am hanes, rhai yn dod oherwydd chwilfrydedd, ac eraill yn dod fel rhan o'u taith ffydd. Heblaw y tâl bach i gael mynediad i Capernaum, ni chodwyd unrhyw dâl i ymweld â'r safleoedd cysegredig hyn.

O ystyried y diddordeb byd-eang mewn hanes Cristnogaeth Geltaidd a'r Diwygiad Anghydfurfiol, byddai Cymru'n elwa o edrych ar y ffordd y mae safleoedd cysegredig yn hygyrch, yn cael eu hyrwyddo, a'u cynnal yn Israel.

Yad Vashem

Ymwelodd y ddirprwyaeth â Yad Vashem, Canolfan Goffa Holocaust y Byd, i fynd ar daith o amgylch Amgueddfa Hanes yr Holocaust, ac i gymryd rhan mewn gweithred o gofio ar gyfer dioddefwyr yr Holocaust.

Mae'r amgueddfa yn dangos bywydau Iddewon Ewrop cyn ac ar ôl yr Holocaust, ac yn adrodd hanes a chynnydd gwrth-semitiaeth yn yr Almaen Natsïaidd. Roedd yn gyfnod amserol ac emosiynol i atgoffa pawb yn y ddirprwyaeth o'r risgiau a allai ein hwynebu yng Nghymru pe bai'r cynnydd mewn rhagfarn, hiliaeth a gwrth-Semitiaeth yn ein cenedl, ein systemau gwleidyddol a'n pleidiau ein hunain barhau'n ddirwystr.

Yn dilyn y daith, cymerodd y ddirprwyaeth ran mewn weithred o gofio yn y Neuadd Goffa, sef prif safle coffa'r Holocaust yn Israel. Mae'r Neuadd yn adeilad concrit cras gyda tho isel yn debyg i babell. Mae'n sefyll yn wag, ar wahân i fflam dragwyddol a'r enwau sydd wedi'u hengrafu ar y llawr basalt du o'r 21 o wersylloedd difa, gwersylloedd crynhoi, a safleoedd lladd y Natsïaid yng nghanol a dwyrain Ewrop. Mae crypt o flaen y fflam goffa yn cadw lludw'r dioddefwyr.

Roedd y weithred o gofio yn cynnwys darlleniadau byr a chyfle i weddio ac adlewyrchu gerbron y fflam dragwyddol.

Academi'r Iaith Hebraeg:

Yn Academi'r Iaith Hebraeg, cafodd y ddirprwyaeth gyflwyniad gan yr Athro Aharon Maman, Islywydd yr Academi, ar adfywiad Hebraeg fel iaith bob dydd.

Roedd yn ddiddorol nodi mai dim ond trwy ei diogelu a'i defnyddio ar ffurf ysgrifenedig a llafar at ddibenion litwrgaidd a chrefyddol y bu modd adfywio'r iaith. Mae'n amlwg bod tebygrwydd i'r gwerth a briodolir i gyfieithiad William Morgan o'r Beibl wrth ddiogelu'r defnydd o'r Gymraeg.

Roedd hefyd yn amlwg bod mabwysiadu'r iaith fel cyfrwng addysg mewn ysgolion yn Israel, y defnydd ohoni gan gyrff cyhoeddus, a'r disgwyliad clir y dylai'r rhai sy'n dod i fyw yn Israel ddsygu'r iaith, yn ffactorau allweddol o ran sicrhau twf cyflym yn ei defnydd.

Heriau Diogelwch

Roedd ein hymweliad â ffin Israel/Gaza ac Ucheldiroedd Golan yn gyfle i gael sesiynau briffio gan yr IDF ac i gwrdd â thrigolion lleol i sôn am fywyd mewn ardaloedd lle mae tensiynau'r gwrthdaro parhaus yn realiti dyddiol. Mae'n amlwg bod y cynnydd diweddar mewn protestiadau a thrais ar ffin Gaza, a'r rhyfel cartref yn Syria, wedi cyfrannu at ymdeimlad cryfach o berygl ac ansicrwydd i ddinasyddion Israel.

Roedd y sesiynau briffio yn amhrisiadwy o ran rhoi rhywfaint o gyd-destun hanesyddol i'r heriau sy'n gysylltiedig â ffiniau a'r sialensiau rhanbarthol ehangach, ond roedd yna hefyd ymdeimlad o dristwch ynghylch natur afreolus a chymhlethdodau'r gwrthdaro, a'i effaith ar ddinasyddion cyffredin o bob ochr.

Safbwyntiau Gwleidyddol

Cyflwynodd Emmanuel Nahshon o Weinyddiaeth Materion Tramor Israel sesiwn friffio ynglŷn â'r cyd-destun gwleidyddol presennol yn Israel â'i chydberthnasau rhyngwladol.

Gan fod ymweliad y ddirprwyaeth ag Israel wedi'i drefnu yn ystod y cyfnod cyn etholiad cyffredinol diweddar Israel, nid oedd aelodau'r Knesset yn bresennol. Fe wnaeth y ddirprwyaeth, er hynny, gyfarfod â Michal Biran, MK Labor, i drafod y sefyllfa gwleidyddol bresennol. Roedd yn amlwg mai materion domestig fel yr heriau a wynebir gan y gwasanaeth iechyd, tai a materion eraill oedd wrth wraidd yr ymgyrch gwleidyddol a oedd yn digwydd. Dywedodd nad dilyn y broses heddwch oedd y pryder mwyaf i'r rhan fwyaf o Israeliaid yn yr etholiad, ond roedd hyn yn groes i'r awydd am ddiogelwch yr adroddwyd amdano i'r ddirprwyaeth mewn manau eraill.

Cafodd y ddirprwyaeth groeso mawr yn y Banc Gorllewinol yn ninas Ramallah gan Dr Abdullah Adbullah, Cadeirydd Pwyllgor Gwleidyddol Cyngor Deddfwriaethol Palesteina ac uwch ddiplomydd Palesteina. Cyflwynodd Dr Abdullah naratif cynhwysfawr a safbwynt dyls Palesteinaidd o ran y gwrthdaro. Mynegodd bryder o ran diffyg yr awydd rhyngwladol i ddod â dwy ochr y gwrthdaro at ei gilydd i gael sgysiau a'r angen i eiriolwr onest wneud hynny, yn enwedig o gofio'r diffyg ymddiriedaeth sydd gan y Palestinaid yng ngweinyddiaeth Trump.

Yn ogystal â lleisiau o wleidyddiaeth genedlaethol, cyfarfu'r ddirprwyaeth â Fleur Hassan-Nahoum, Dirprwy Faer Jerwsalem. Mynegodd Mrs Hassan-Nahoum awydd i hyrwyddo ymgysylltiad â thrigolion Dwyrain Jerwsalem fel ffordd o feithrin ymddiriedaeth ac annog pobl i gymryd rhan mewn etholiadau lleol. Roedd ganddi safbwynt newydd, ac roedd yn dymuno pontio'r rhaniad rhwng

Arabiaid ac Iddewon yn ardal ehangach Jerwsalem er mwyn gallu hyrwyddo a chyflawni nodau cyffredin.

Rhagolygon Heddwch

Roedd amserlen teithio'r ddirprwyaeth yn cynnwys ymweliad â phrosiect Paths to Peace yn Netiv HaAsara lle clywsom am fywyd trigolion mewn cymuned fach a oedd wedi profi ymosodiadau roced ac ymdreiddiad trwy dwneli o Gaza. Penderfynodd artist cerameg lleol greu murlun dros heddwch ar ddarn o'r rhwystr diogelwch ger y gymuned. Mae'r murlun yn wynebu Gaza ac mae ganddo negeseuon a symbolau heddwch mewn Arabeg, Hebraeg a Saesneg. Mae'r prosiect yn ceisio cynnwys pobl o bob cefndir wrth ddatblygu'r murlun fel arwydd o'r awydd am heddwch rhwng Israel a Phalesteina.

Ymwelodd y ddirprwyaeth hefyd â Rawabi, tref Palesteinaidd newydd yn y Lan Orllewinol. Syniad Bashar Masri oedd Rawabi, entrepreneur gweledigaethol a dyn busnes o Balestina, ac fe'i adeiladwyd gyda chefnogaeth Qatar. Mae'n cynnwys tai modern, canolfan fanwerthu, swyddfeydd, cyfleusterau chwarae ac adloniant, a mannau addoli. Mae'r dref wedi'i chynllunio'n dda ac nid oes dim arall cyffelyb yn y Tiriogaethau Palesteinaidd. Esboniodd Mr Masri mai'r bwriad oedd cynnig lle deniadol i fyw yn y Lan Orllewinol er gwaethaf y gwrthdaro presennol, ac i ddangos ei bod yn bosibl datblygu prosiectau arwyddocaol er gwaethaf yr heriau a wynebir o ganlyniad i'r sefyllfa annatrys barhaus. Mynegodd obaith y byddai cenedlaeth newydd o arweinwyr gyda'r gallu i drafod heddwch yn dod i'r amlwg yn Israel a Phalesteina.

Yn Tel Aviv, ymwelodd y ddirprwyaeth â Chanolfan Feddygol Wolfson, gan gyfarfod â chynrychiolwyr Save a Child's Heart, elusen sy'n darparu llawdriniaeth ar y galon i achub bywydau plant difreintiedig ledled y byd ac sy'n cefnogi datblygiad gwelliannau ym maes gofal pediatrig a chardiaidd drwy hyfforddi gweithwyr iechyd proffesiynol yn rhyngwladol. Mae ei gweithgareddau'n estyn i ddarparu triniaeth i blant o Gaza a'r Lan Orllewinol, a datblygu capasiti cyfleusterau a chanolfannau meddygol yn y Tiriogaethau Palesteinaidd. Mae'r dull hwn o hyfforddi a meithrin gallu yn rhywbeth y gall Cymru geisio ei efelychu drwy ymgysylltu'n rhyngwladol.

Cynigiodd Canolfan Heddwch ac Arloesi Peres, sydd hefyd wedi'i lleoli yn Tel Aviv, gyfle i gwrdd â Nadav Tamir, y Cyfarwyddwr, ac i ystyried pa mor ddyfeisgar yw pobl Israel, a'r gobaith y gallai hyn arwain at ffyniant sy'n gallu cau'r bwch economaidd rhwng Israel a'i chymdogion er mwyn annog heddwch. Roedd ymdeimlad clir o falchder cenedlaethol yn y cyflawniadau technolegol a'r dyfeisgarwch a oedd yn cael eu harddangos, a does dim amheuaeth y bydd yn arwain at gyfleoedd busnes a gwaith ar y cyd a fydd yn ysgogi syniadau newydd a gwreiddiol. Efallai y gallai Cymru ddysgu gwersi gwerthfawr o'r gwaith arloesol hwn.

Datblygu economaidd

Yn ogystal â gweld y gwaith arloesi yng Nghanolfan Heddwch ac Arloesi Peres, cafodd y ddirprwyaeth gyfle hefyd i gwrdd â Nili Shalev, Cyfarwyddwr Cyffredinol Cyfarwyddiaeth Ymchwil a Datblygu Israel a'r UE yn Awdurdod Arloesi Israel. Cafwyd trafodaeth amhrisiadwy ynglŷn â'r dulliau a ddefnyddir gan lywodraeth Israel er mwyn ysgogi buddsoddiad ac arloesi mewn marchnadoedd byd-eang newydd ac sy'n datblygu er mwyn galluogi Israel i ddod yn arweinydd byd-eang yn y marchnadoedd hynny. Roedd y ffaith ei bod wedi defnyddio grantiau datblygu yn gyfnewid am

freindaliadau ar werthiannau a chyfranddaliadau mewn cwmnïau o ddiddordeb mawr i'r ddirprwyaeth, a chafwyd llawer o drafod ynghylch a ellid defnyddio dull o'r fath yng Nghymru.

Cyfiawnder

Cyfarfu'r ddirprwyaeth â'r cyn Brif Ustus, Asher Grunis, yn Uchel Lys Israel yn Jerwsalem. Roedd y cyfarfod yn gyfle i gynrychiolwyr drafod pryderon ynghylch mynediad Palestinaid at gyfiawnder a datblygiad cyfraith Israel ar ôl y Mandad Prydeinig.

O ystyried y ddadl barhaus yng Nghymru ynghylch datblygu awdurdodaeth gyfreithiol benodol ac ar wahân, roedd yn ddiddorol dysgu am ddatblygiad system cyfiawnder Israel o'i gwreiddiau yn y system gyfreithiol Brydeinig a etifeddodd yn dilyn y Mandad Prydeinig.

Casgliad

Roedd yr ymweliad ag Israel a'r Lan Orllewinol yn brysur ond yn werthfawr, a chafodd y ddirprwyaeth gyfle i goffáu treftadaeth Gristnogol a milwrol Cymru, archwilio a deall cymhlethdodau'r gwrthdaro parhaus yn well, ac ystyried cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu rhyngwladol a syniadau y gallai llunwyr polisi eu gweithredu yma yng Nghymru.

Darren Millar AC, Gorllewin Clwyd